Rhif 208 AWST - MEDI 2017

AM DDIM

# Gwyliedydd

Synod Cymru

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD

# A OES HEDDWCH?



A oes heddwch? A yw heddwch yn bosibl? Ydyw, mae'n bosibl, dim ond inni sylweddoli ein bod i gyd yn perthyn, yn gydgysylltiedig â'n gilydd. Mae treftadaeth y Cyfundeb Methodistaidd yn ein helpu i ymgyrraedd at heddwch a chytgord. Ond os gofynnwn, 'A oes heddwch?', mae'r ateb i'w gael yng ngeiriau gwasanaeth y Cymun: 'Tangnefedd yr Arglwydd a fyddo gyda chi'n wastad'. Rwy'n hoff o'r llun hwn o Gristnogion o wahanol gefndiroedd yn dod at ei gilydd.


*Y Diacon Jon Miller*




**ARESTIO DAU AM GEISIO DIARFOGI AWYRENNAU RHYFEL SYDD AR EU FFORDD I FOMIO YEMEN.**

**GWELER TUDALEN 2**

# Ceisio diarfogi awyren ryfel




Mae'n fore dydd Sul, a'r gweinidog yn codi'n fore iawn gan fod gwaith paratoi a thaith o'i flaen. Ond nid Sul cyffredin oedd hi i un o'n gweinidogion ni, y **Parchedig Dan Woodhouse**, ar 29 Ionawr eleni. Aeth ei daith ag ef i faes awyr BAE Systems, Warton, ychydig filltiroedd o Preston, i dorri i mewn. Dyna lle mae'r awyrennau rhyfel yn cael eu gwneud, sy'n cael eu gwerthu gan lywodraeth y DU i Saudi Arabia. Cwsmer gwerthfawr. Ond beth am y miliynau o bobl yn Yemen sydd yn newynu wrth i'n gwlad ni helpu Saudi i fomio mosgiau, ysgolion, ysbytai, ffyrdd a marchnadoedd y wlad honno?

Ychydig lathenni oddi wrth un o'r awyrennau bomio, cafodd Dan, ynghyd â Ben ei gyfaill o Grynwr, eu rhwystro rhag mynd ymhellach â'u bwriad i ddiarfogi'r peiriant rhyfel. Cafodd y ddau eu harestio a'u rhyddhau ar fechnïaeth.

Meddai Dan: "Rwyf yn ymgyrchu ers blynyddoedd lawer yn erbyn anghyfiawnder y fasnach arfau a'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn cydweithio â'r fasnach honno. Dulliau mwy confensiynol a ddefnyddiais gan amlaf: cyfarfod â chyd-ymgyrchwyr, siarad ag Aelodau Seneddol, llofnodi deisebau, mynd ar orymdeithiau ac ati.

Fy ffydd Gristnogol sydd y tu ôl i hyn oll – esiampl Crist ei hun a'r proffwydi a aeth o'i flaen. Mae'r Ysgrythur yn ein dysgu i wrthsefyll drygioni, llefaru wrth y pwerus yn enw'r gwir; gan gofio am y rhai sydd heb lais."

Sut y dylem ni ymateb i'r hanes yma? Onid oes gennym ni i gyd gyfrifoldeb tuag at y rhai sy'n dioddef yn sgil rhyfel? Sut y gallwn ninnau wneud ein rhan i helpu i ddod â heddwch i'n byd? Oni ddylid rhoi diwedd ar y fasnach arfau aflan sy'n warth ar ein gwlad? Fel arall, yr ateb gonest pan ofynnir 'A oes heddwch?' y mis Awst hwn eto fydd 'Nac oes, a dydym ni'n gwneud dim byd ynghylch y peth'.

Gallwch ddarllen mwy am yr hanes yn https://revdanwoodhouse.wordpress.com/2017/05/18/bae-warton/

# Bob dydd – darganfod rhythm wrth genhadu a dilyn Iesu

Dyma'r thema a ddewiswyd gan y Parchedig Loraine Mellor a Mrs Jill Baker, ar gyfer eu blwyddyn fel Llywydd ac Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd, 2017-18, yn seiliedig ar yr adnodau isod o Lyfr yr Actau: *Roedden nhw'n dal ati i gyfarfod bob dydd yng nghwrt y deml, ac yn bwyta a dathlu Swper yr Arglwydd yn nhai ei gilydd. Roedden nhw'n moli Duw, ac roedd agwedd pobl tuag atyn nhw yn bositif iawn. Roedd mwy a mwy o bobl yn ymuno â nhw, ac yn cael eu hachub gan Dduw, bob dydd. (Actau 2: 46-47 beibl.net)*

Golau cyntaf y dydd, fy meddwl cyntaf innau
Iesu, bydd gyda mi;
Dydw i ddim yn wynebu'r diwrnod yma ar fy mhen fy hun...

...Golau olaf y dydd, fy meddwl olaf innau
Iesu, bydd gyda mi;
Daliaf fy ngafael ynot
pan fyddo'r nos yn hir.



**Gweddïwn am fendith Duw ar Jill a Loraine. Mae mwy o hanes y Gynhadledd i'w gael ar dudalen 12.**

## RHODDION

Marian Jones, Caerdydd, er cof am ei rhieni y Parchg a Mrs D R Evans ................ £30-00
Gwerthiant Nwyddau'r *Gwyliedydd* ...................... £43-00
Rhodd Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd ............ £400-00
Mrs Megan Jones, Gwelafon, Corwen ............ £10-00
Cyfanswm ........................... £483-00

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*.

**A ninnau bellach yn ail hanner y flwyddyn, erfyniwn yn daer am gyfraniadau'r sawl sydd yn talu £4 am gopi unigol drwy'r post, oni thalwyd eisoes. Sieciau yn daladwy i 'Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru', i'w hanfon at Robin os gwelwch yn dda.**

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 208**

**AWST - MEDI 2017**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

***Golygyddion:***


**ROBIN JONES**
LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk


***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU:**
**1 MEDI, 2017**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i **"Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"**

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018


Croeso i bawb i wasanaeth cyflwyno medalau Gee i ffyddloniaid yr Ysgol Sul ar ddydd Iau, Medi 28 yng Nghapel Emaus, Bangor am 2.30pm.

## Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

AWST
6 Yr Eisteddfod Genedlaethol
13 Gwyliau
20 Gwyliau
27 Gŵyl Greenbelt

MEDI
3 De Gwynedd
10 Ddim ar gael
17 Dyffryn Conwy
24 Glannau Meirion a Dyfi
31 Bathafarn a Llanwddyn

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl

# O'R GADAIR
# AR Y GOROR

**gan y Parchedig JENNIFER HURD**

Dwy flynedd yn ôl, mi ges i ben-blwydd arbennig (hanner cant oed, os oes rhaid i chi ofyn!), felly mi gawsom ni wyliau arbennig. Aethom ar draws Canada ar drên. Taith fendigedig! Twristiaid oedd y rhan fwyaf o'r teithwyr, er bod ychydig o bobl o Ganada hefyd – pobl fusnes, gan mwyaf. Mi ges i sgwrs ddiddorol am ffydd efo un ohonynt. Iddew oedd o, ac roedd ganddo fo ddiddordeb yn y ffaith fy mod i'n weinidog Methodistaidd. Soniodd wrthyf am ei ffrind gorau sy'n Gristion, aelod yn Eglwys y Mennoniaid, enwad sydd â thraddodiad cryf o weithio dros heddwch, cyfiawnder a chydraddoldeb. Dywedodd ei fod yn teimlo bod ganddo lawer mwy yn gyffredin â'r ffrind yma o Gristion, sy'n ymarfer ei ffydd yn weithredol, nag â ffrindiau eraill sy'n Iddewon seciwlar a heb fod yn ymarfer eu ffydd.

Bûm yn meddwl am y sgwrs yma wrth i mi weddïo yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol ym Mhrydain eleni, yn Llundain a Manceinion (ac, O Dduw, gwared ni rhag clywed am unrhyw ymosodiad arall, rhwng ysgrifennu a chyhoeddi'r darn yma). Bûm yn meddwl am y bobl o grefyddau eraill rwyf wedi eu hadnabod, ac ymhlith fy nghydnabod yn awr, a pha mor werthfawr yw ein cyfeillgarwch a'r cydweithio rhyngom. Rwy'n deall beth oedd y gŵr o Iddew ar y trên yn ei olygu, fod gennym ni gymaint yn gyffredin fel pobl sy'n ymarfer ein ffydd, beth bynnag ein crefydd. Rydym yn deall pwysigrwydd dilyn arferion ein ffydd, byw o dan ddisgyblaeth ein ffydd a dilyn dysgeidiaeth ein ffydd mewn ffordd sy'n wahanol, efallai, i berson sy'n Gristion mewn enw yn unig. Mae hyn yn gallu creu perthynas rhyngom ni a dealltwriaeth ddofn, ac mae cyfeillgarwch felly mor bwysig heddiw yn ein byd rhanedig.

Fe'm cyffyrddwyd gan y lluniau yn y wasg o arweinwyr y crefyddau yn sefyll gyda'i gilydd yn gyhoeddus ym Manceinion ac yn Llundain, gan dystio yn unedig i beth sy'n ein huno ni, sef ein consýrn cyffredin am werthoedd megis heddwch, cyfiawnder, cariad ac ewyllys da. Mae eithafiaeth beryglus yn digwydd yn enw pob ffydd, ond mae'n llurgunio a bradychu dysgeidiaeth pob athro mawr ym mhob crefydd yn hanes y byd. Fel un o ymddiriedolwyr Trefnu Cymunedol Cymru (www.tcc-wales.org.uk), rwyf wrth fy modd yn cael cyfle i gydweithio â ffrindiau o amrywiaeth eang o grwpiau cymunedol, gan gynnwys cymuned Fwslimaidd Wrecsam. Rydym yn cydweithio er lles y gymuned i gyd yn y Gogledd Ddwyrain. Pan oeddwn i'n weinidog yng Nghylchdaith Dudley a Netherton yng Nghanoldir Lloegr, cyfoethogwyd fy mywyd yn fawr drwy gydweithio â ffrindiau o grefyddau eraill trwy'r Fforwm Aml-ffydd. Yn y fwrdeistref honno, roedd hynny yn hanfodol, oherwydd yn anffodus roedd tueddiadau cryf tuag at wleidyddiaeth y dde eithafol. Ond yno, mi ddysgais o'r newydd mewn ffordd bwerus ynglŷn â gweithio gyda phawb, er lles pawb. Daeth dysgeidiaeth Iesu am bwy yw fy nghymydog (Luc 10: 25-37) yn fyw i mi.

Eto, rhan o'n galwad fel Cristnogion yw rhannu ein ffydd a dweud wrth eraill am newyddion da cariad Duw yn Iesu Grist. Mae gennym alwad i fod yn bendant am bwy ydym ni a phwy rydym yn ei ddilyn. A yw'r alwad hon yn gwrthdaro â'n dyletswydd i gydweithio â phobl o grefyddau eraill a'u caru a'u parchu? Mae'n gwestiwn pwysig oherwydd fe all bywydau plant annwyl Duw ddibynnu ar y modd y byddwn yn ymateb.

Gobeithio fod darllenwyr y *Gwyliedydd* i gyd hefyd yn darllen *Cristion* (www.cristion.net), ein cylchgrawn cyd-enwadol. Welsoch chi golofn Lyn Lewis Dafis yn rhifyn Mai/Mehefin 2017? Roedd yn sôn am y ffaith fod y rhan fwyaf ohonom yn ofni rhannu ein ffydd. Tybed pam y mae arnom ni ofn dweud wrth eraill am bopeth sydd wrth wraidd ein ffydd yng Nghrist, sef cariad, heddwch, cyfiawnder, cydraddoldeb, gwerth pob person a pha mor werthfawr, yng ngolwg Duw, yw pob un ohonom. A yw'r pethau hyn yn codi ofn? Go brin, yn wir! Mae'r byd yn gweiddi allan amdanyn nhw ar hyn o bryd. Wedi'r cwbl, "Cariad yw Duw", a phobl cariad ydym ni, ac "mae cariad perffaith yn bwrw allan ofn" (1 Ioan 4: 16 -18). Does gennym ni ddim byd i'w ofni wrth i ni rannu cariad Duw yng Nghrist. Mae ar bawb angen cariad, a bydd cariad yn dangos y ffordd i ni, boed y sgwrs rhyngom a rhywun o grefydd arall neu beidio.

Mae'n werth cofio hyn wrth i ni yn Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd symud tuag at ganolbwyntio ar bedwaredd thema "Ein Galwad", sef Efengylu, yn y flwyddyn gyfundebol newydd hon. Ystyr "efengyl" yw "newyddion da", felly byddwn ni'n canolbwyntio ar rannu newyddion da cariad Duw – dim byd mwy cymhleth! Ac mae hynny yn newyddion da i bawb.

# CNOI CIL

gan Gwyndaf Roberts

Rhai blynyddoedd yn ôl cafodd y byd celf ei ysgwyd i'w seiliau pan glywyd bod ffugwyr wedi bod ar waith yn cynhyrchu darluniau a oedd yr un ffunud â gwaith rhai o gewri mawr yr oesoedd. Er bod llawer o'r darluniau ffug wedi'u darganfod fe ofnir bod llawer yn dal i grogi ar rai o furiau orielau celf ynghyd â thai preifat rhai o bobl gyfoethocaf y byd. Mae'n rhaid cydnabod bod y ffugwyr yn hynod o gelfydd a gwybodus wrth fynd o gwmpas eu tasg ysgeler. Yn wir mae un dyn a fu yn y carchar am ei drosedd yn awr yn rhydd ac yn paentio darluniau 'ffug' sydd â nodyn amlwg arnynt yn dweud mai copi yw'r gwaith. Yr hyn sy'n rhyfeddod yw bod rhai o'r darluniau hyn yn gwerthu am filoedd o bunnau!



Ffugiwr llenyddol mwyaf Cymru yn ddi-os oedd Edward Williams (1747-1826), neu fel yr adnabyddir ef yn well, Iolo Morganwg.

Ganwyd ef yn Llancarfan a threuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Sain Tathan ar wahân i'w gyfnodau yn Llundain.

Saer maen oedd wrth ei alwedigaeth a magodd bedwar o blant ar enillion prin iawn. (Fe dreuliodd flwyddyn yng Ngharchar Caerdydd 1786/7 am fethu talu ei ddyledion). Am flynyddoedd dioddefodd lawer o boen yn ei gefn a olygai na allai gysgu mewn gwely. Fe gredir mai'r boen a ddioddefodd a wnaeth ef yn gaeth i lodnwm, sef ffurf ar opiwm, cyffur a ddefnyddid gan lawer yn y cyfnod hwnnw. Yn ddieithriad roedd y cyffur yn effeithio ar gyflwr meddwl y sawl a oedd yn gaeth iddo.

Cyffur neu beidio roedd Iolo yn athrylith mewn sawl maes er prinned oedd ei addysg. Ysgrifennai am ddaeareg, amaeth, pensaerniaeth, llysieueg, gwleidyddiaeth, cerddoriaeth werin a diwinyddiaeth. Ar ben hyn oll roedd yn fardd ac yn emynydd ac, yn ôl Thomas Parry, Iolo a wyddai fwyaf o neb yn ei oes am hanes a llenyddiaeth Cymru.

Yn Llundain daeth i adnabod Owen Jones, (sef Owain Myfyr), noddwr llên a golygydd a ddeuai'n wreiddiol o Lanfihangel Glyn Myfyr. Daeth hefyd i adnabod William Owen Pughe (1759-1835), geiriadurwr a hynafiaethydd a hanai o Lanfihangel y Pennant. Wrth glywed y ddau hyn yn canmol traddodiad llenyddol Gwynedd fe gredir i Iolo gael ei ysgogi i lunio ffuglen ddi-sail am draddodiad llenyddol Morgannwg. Yn 1789 fe gyhoeddodd Owain Myfyr a William Owen Pughe *Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym* a oedd yn cynnwys cywyddau ffug o waith Iolo dan enw Dafydd ap Gwilym. Mewn llyfr eraill fe gyhoeddwyd copi o *Brut y Tywysogion* nad oedd dim amgenach na gwaith dychymyg Iolo. Ei dwyll mwyaf wrth gwrs oedd ei greadigaeth o ***Orsedd Beirdd Ynys Prydain*** a gynhaliwyd gyntaf yn 1792 ar Fryn y Briallu yn Llundain. Erbyn 1819 daeth yr orsedd yn rhan o'r mudiad Eisteddfodol y gwelwn ni ar waith heddiw. I Iolo mae'r diolch am y mudiad cenedlaethol pwysig hwn, sydd mewn gwirionedd yn seiliedig ar ddychymyg Iolo Morganwg.

Ond mae gwedd arall ar Iolo Morganwg sef ei ymlyniad diwyro at Undodiaeth. Tra yn Llundain daeth i adnabod Theophilus Lindsey (1723-1808), gweinidog y capel lle yr addolai Iolo. Lindsey medd rhai oedd tad Undodiaeth Lloegr. Yno hefyd daeth i adnabod Joseph Priestley (1733-1804), undodwr a darganfyddwr ocsigen a dyfeisiwr dŵr soda.

I ddeall dewrder Iolo a'i gyd-undodwyr rhaid cofio y bu arddel Undodiaeth yn drosedd gyfreithiol tan 1811 gyda chosb o hyd at dair blynedd mewn carchar i unrhyw un oedd yn euog. Dihangodd Priestley i America lle bu farw a bu Lewis Glyn Cothi, gweinidog cyntaf yr enwad yng Nghymru, yng ngharchar Caerdydd am ddwy flynedd am ganu cerdd ymfflamychol a bradwrus. Roedd y cyfan yn dilyn Chwyldro Ffrengig 1789, erchyllterau Teyrnasiad Braw 1792-92 a'r rhyfel yn erbyn Ffrainc 1793-1815 pan oedd y llywodraeth yn llawdrwm ar unrhyw un a godai ei lais, fel Iolo, yn erbyn anghyfiawnder crefyddol a chymdeithasol.

Heddiw mae 170 o gynulleidfaoedd Undodaidd ym Mhrydain gyda 17 ohonynt yn ne sir Aberteifi a gogledd sir Caerfyrddin, sef yr ardal a elwir yn ***Smotyn Du***. Nid ydynt yn credu yn y Drindod Sanctaidd gan wrthod duwdod Iesu Grist. Maent yn ei barchu fel yr un canolog yn siwrnai ysbrydol y ddynoliaeth ond nid ydynt yn ei addoli. Maent yn parchu'r Beibl fel ffynhonnell doethineb ond nid yw'n awdurdod digwestiwn iddynt hwy. Gan nad oes ganddynt Gredo fel y cyfryw mae pob aelod yn rhydd i ddeall a dehongli'r syniad o Dduw yn ôl ei grebwyll a'i brofiad personol.

I lawer ohonom heddiw mae safbwyntiau Undodiaeth yn ddieithr ac yn anodd ei ddeall. Er hynny mae rhai o ddywediadau a syniadau Iolo Morganwg yn dal eu gafael ynom. Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn eleni fe fydd clywed *Y Gwir yn erbyn y Byd* yn ein cyffroi a byddwn yn gallu cyd-ganu'r weddi Undodaidd *Dyro Dduw dy nawdd* heb boeni nad oes sôn ynddi am Iesu Grist a'r Ysbryd Glân. Efallai am ychydig o eiliadau ym mis Awst eleni fe fyddwn oll yn Undodiaid, diolch i Iolo Morganwg!

YR EGLWYS FETHODISTAIDD,
CYLCHDAITH CYMRU

**Gwasanaeth Croeso**
**i'r Parchedig Richard Gillion**

gweinidog newydd Ardal Môn ac Arfon

**Nos Wener, 1 Medi, 2017 – 6yh**
**Capel Shiloh, Tregarth**

*Pregethwr:* Y Parch. **Ddr Jennie Hurd**

***Croeso cynnes i bawb***

Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

## Rydym oll yn gyfrifol

gan Philip Edwards

Anodd credu ambell dro ein bod yn byw yn un o wledydd cyfoethocaf y byd. Wrth gwrs, mae miliynau o bobl yn byw mewn tlodi affwysol yn y gwledydd sy'n datblygu. Maent yn dyheu am yr hanfodion a gymerwn ni yn ganiataol: to uwch ein pennau, bwyd ar y bwrdd bob dydd a d r glân i'w yfed. Ond y ffaith amdani yw bod o fewn ein cymdeithas ninnau bobl yn byw mewn tlodi. Yn nhyb rhai, pobl ar fudd-daliadau yw'r rheini, unigolion sy'n methu neu'n gwrthod gweithio. Mewn gwirionedd, mae mwy o bobl bellach sydd yn dlawd ac mewn gwaith nag sydd allan o waith ac yn byw mewn tlodi. Mae mwy nag erioed o'r blaen o deuluoedd yn dibynnu ar fanciau bwyd a mwy o fanciau bwyd yn agor o hyd i geisio diwallu'r angen. Mae twf dychrynllyd yn nifer y digartref ac mae mwy a mwy o bobl yn dioddef o afiechyd meddwl. A phobl oedrannus yn marw am na allant fforddio cadw'n gynnes yn y gaeaf. Sut y cyrhaeddwyd y fath stad? Pam na wnaeth y naill lywodraeth ar ôl y llall sylweddoli beth oedd yn digwydd? Gwaeth fyth, hyd yn oed a bwrw eu bod wedi methu rhagweld beth fyddai'n digwydd, sut nad ydynt yn awr yn cyflwyno mesurau i fynd i'r afael â'r anghyfiawnder sy'n rhwygo ein cymdeithas? Sut y gall gwleidyddion anwybyddu'r argyfwng hwn? A sut y gallwn ninnau adael iddynt ei anwybyddu? Ydym ni, Gristnogion, yn gwneud popeth allwn ni? A ydym yn ddigon llafar dros y rhai sy'n byw mewn tlodi? Ydym ni'n dal gwleidyddion i gyfrif? Ydym ni'n gwneud ein gorau glas i rannu cariad Duw? Ynteu a ydym yn mynd heibio o'r ochr arall gan ragdybio mai cyfrifoldeb rhywun arall ydyw? Yn y pen draw, rydym oll yn gyfrifol.

# HOLI'R PANEL

**Annwyl Banelwyr,**

**Roeddwn i mewn angladd yn ddiweddar ac ar lan y bedd dywedwyd fod corff y person oedd wedi marw yn cael ei gladdu ond fod ei enaid ddim yno am ei fod wedi mynd i'r nefoedd.**

**A ydy hyn yn gwneud synnwyr ac a ydy Cristnogaeth yn dysgu hyn?**

***Yr eiddoch, Braidd yn Ddryslyd***



**Ateb Bet**

Dwi'n cofio fy mab Aneirin yn bedair oed yn holi ma's o'r bliw, fel mae plant yn gwneud, "Beth sy'n digwydd ar ôl i ni gyrraedd diwedd ein dyddiau?" "Rydym yn mynd i fod gyda Iesu," oedd fy ateb. Mae'n rhaid cadw pethau yn syml gyda phlant. Ac mae'n amlwg iawn wrth i chi sefyll ar lan bedd fod rhywbeth wedi mynd. Corff gwag sydd ar ôl. Ond beth sydd wedi mynd ac i ble?

Mae'r Salmydd yn sôn am gyfraith yr Arglwydd yn adfywio'r enaid (19:7); mae enaid Mair yn mawrygu'r Arglwydd (Luc 1:46); ac mae Iesu yn ein rhybuddio ni i ofni'r hwn sy'n gallu dinistrio enaid a chorff yn uffern (Mathew 10:28). Dwi'n credu bod yr enaid yn rhan annatod ohonom, y peth sy'n ein gwneud ni yn "ni", ein "bod" mewnol, ac yn rhywbeth fydd yn parhau am byth.

Yn ei ddameg am y Dyn Cyfoethog a Lasarus, mae Iesu yn dweud bod y dyn tlawd, ar ôl iddo farw, yn gwledda wrth ochr Abraham (Luc 16:22). Dyw e ddim yn esbonio'r ddelwedd, felly mae'n amlwg bod ei gyfoeswyr yn ei deall yn barod. Roeddent yn credu mewn rhyw fath o fywyd ar ôl marwolaeth. Mae Sant Paul yn mynd ymhellach: "Elw yw marw....y mae arnaf awydd ymadael a bod gyda Christ, gan fod hynny'n llawer gwell," meddai (Phil 1:21,23).

Mae Cristnogion yn cyffesu yng Nghredo Nicea "Disgwyliwn atgyfodiad y meirw a bywyd y byd sydd i ddyfod".Ysgrifennodd C S Lewis yn ei lyfr olaf, Prayer: Letters to Malcolm: "At present we tend to think of the soul as somehow 'inside' the body. But the glorified body of the resurrection as I conceive it .... will be inside the soul."

Wrth gwrs, nid oedd Jack Lewis, mwy na neb arall, yn gwybod yn union beth sydd i ddigwydd inni ar ôl inni gyrraedd diwedd ein dyddiau. Mae Aneirin yn ddeugain oed bellach, ond dwi'n dal i gredu bod yr ateb a roddais i iddo ar ymyl Llyn Llys y Frân yn ddechreuad: "Rydym yn mynd i fod gyda Iesu. A bydd hi'n grêt!"

*Fs. Bet Holmes*

**Ateb Martin**

Mae'r trychineb ofnadwy a ddigwyddodd i'r bobl dlawd a drengodd yn y tân wnaeth losgi tŵr Grenfell yn Llundain yn ddiweddar yn sicr wedi codi'r cwestiwn yma i lawer. Os llosgwyd cyrff y trueiniaid a drengodd heb fedru dianc, yn ddim ond llwch a lludw, yna ai dim ond yr enaid oedd ar ôl i fynd i'r nefoedd? Mae'r un cwestiwn yn codi ynglŷn ag amlosgiad mewn crematoriwm. Yn wir, wrth syllu ar y toreth o gyfarchion a ysgrifennwyd ar y mur gan aelodau o'r gymuned mewn cydymdeimlad â'r meirw sylwais ar fwy nag un yn dweud, "God rest your precious souls".

Ond mae hyn yn gamddealltwriaeth o'n crefydd Gristnogol, er bod llawer yn credu mai dim ond yr enaid sydd yn "mynd i'r nefoedd". Roedd y Groegiaid gynt, a Platon yn arbennig, yn credu bod y corff yn cael ei hollti oddi wrth yr enaid, gan roi ffydd yn anfarwoldeb yr enaid. Mae Cristnogaeth ei hun wedi bod ar fai yn dirmygu'r corff dynol fel rhywbeth pechadurus nad yw ond yn ein tynnu i lawr ac y byddwn yn llawer gwell hebddo yn y bywyd a ddaw.

Mae Cristnogaeth yn dysgu atgyfodiad y corff yn sgil atgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist o'r meirw ar y trydydd dydd. Pan gawsom ein bedyddio buom farw gyda Christ ac atgyfodwyd ni i fywyd newydd gyda Christ. Dyna yw arwyddocâd ein trochi yn y dŵr a'n codi allan ohono drachefn. Ac felly o'n bedydd rydym wedi etifeddu y bywyd tragwyddol hwn a addawodd Crist i ni. "Felly, os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma". Golyga hyn ein bod yn byw yn nheyrnas Dduw ers ein bedydd fel Cristion ac felly yn rhannu yn atgyfodiad y corff.

Rhaid inni beidio â meddwl am y corff atgyfodedig fel cig a gwaed. Beth sydd yn ein gwneud ni fel person yw ein personoliaeth, beth sydd ein gwneud ni yn ni, yn berson unigryw. A bydd y person ysbrydol hwn yn cael ei gymryd i fyny yn ein marwolaeth i fod gyda Duw. Wedi'r cwbwl rydym wedi bod gyda Duw trwy gydol ein bywyd daearol. Beth sydd yn mynd i'n gwahanu oddi wrth Dduw yn y bywyd a ddaw? Dim marwolaeth yn sicr.

Os oes arnom eisiau unrhyw brawf o atgyfodiad y corff yn y byd daearol hwn yna fe'i ceir ym mhresenoldeb yr Eglwys ar y ddaear. Hi yw corff Crist er gwaethaf ei chyflwr ar adegau. Hi yw ein gwarant o atgyfodiad y corff.

Mae'r gred yn atgyfodiad y corff yn ein galluogi i werthfawrogi ein cyrff materol ar y ddaear ac i weithio i wella cyflwr materol pawb a phopeth arall yng nghreadigaeth Duw tra byddom yma. Ac yna gallwn adael popeth i Dduw gan wybod y byddwn ni a'n hanwyliaid yn ddiogel yn ei bresenoldeb Ef.

*Y Parchedig Martin Evans-Jones*

# Hanes rhyw ohebydd

Yn Llanfyllin y mae cartref Robin Hughes, un o ohebwyr ffyddlon y *Gwyliedydd*, ers llawer blwyddyn bellach, er mai un o Bwllheli ydyw yn wreiddiol. Un penwythnos, ac yntau'n fyfyriwr yn Aberystwyth, aeth adref i Bwllheli. Peth anghyffredin i fyfyrwyr ei wneud bryd hynny, ond roedd gêm bêl-droed bwysig ymlaen yn erbyn Merthyr Tudful yng Nghwpan Cymru. Ar y bore Sadwrn, digwyddodd Robin weld ffrind, a ddywedodd fod ganddo 'date' y noson honno ond bod dwy ohonyn nhw! A dyna sut y cyfarfu Robin a Mona.

Cyn gynted ag y gwelodd Robin hi, yr hyn ddaeth i'w feddwl oedd: 'Dyna'r un i mi!' Ar ôl gorffen yn y Coleg, bu'n rhaid i Robin wneud dwy flynedd o Wasanaeth Cenedlaethol ac yn ystod yr amser hwnnw bu'r ddau yn llythyru ac yn ceisio pob cyfle i weld ei gilydd ar benwythnosau. Ar 15 Mehefin 1957, priodwyd hwy yng Nghapel Maes y Neuadd, Trefor.

***Llongyfarchiadau mawr i chi eich dau ar ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol.***

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU



*Tabernacl, Llanfyllin*

## Bethel, Y Creunant

**DYMUNIADAU GORAU**
Mae Mrs. Margaret Jenkins, un o'n haelodau ffyddlon, wedi cael damwain yn ei chartref a bu'n rhaid iddi gael llawdriniaeth ar ei phigwrn. Dymunwn wellhad buan iddi.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Mrs Elisabeth Davies ar enedigaeth wyres, Elsi Gwenllian, a aned i Wyn a Heledd ym mis Mehefin. Mae Wyn yn adnabyddus fel aelod o "Only Men Aloud." Mae Elisabeth yn fam-gu yn barod i Izzi ac Olly, plant Joanna a Huw, y mab hynaf.

Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Mr Ellis Morgan, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 94. Mae Ellis yn dal i fynychu'r capel yn gyson.

**PRIODAS**
Yn ystod y misoedd diwethaf ym Methel, gwasanaethwyd priodas rhwng Bethan, merch Elisabeth Davies, a Daniel Parry. Mae'r ddau yn gweithio yng Nghaerdydd ac yno y maent wedi ymgartrefu. Mae Elisabeth yn weithgar iawn yn y capel fel ysgrifennydd ac fel cofrestrydd. Roedd y gwasanaeth o dan ofal ein gweinidog, y Parchedig Ddr Ian Morris. Cafodd y gynulleidfa'r fraint o glywed llais swynol brawd Bethan, Wyn, yn ystod y gwasanaeth. Dymunwn yn dda i'r ddau.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mrs Ira Tucker sydd wedi colli brawd yn ddiweddar.

**DIOLCH**
Diolch i Euril ac Alan Thomas am eu gwaith yn y capel yn ystod y flwyddyn.

*Gohebydd – Eirwen Rosser*

## Salem, Rhyd y Foel

**CYMANFA**
Ddydd Sul Mehefin 25ain cynhaliwyd y Gymanfa gydenwadol yma yn Salem, a Salem hefyd oedd yn gyfrifol am roi eitem i ddechrau'r gymanfa yng ngwasanaeth y bore. Fe lediodd Rowena a Cadi Pegg emyn ac yna cafwyd unawd gan Beth Megan gyda'i mam Ruth yn cyfeilio. Yr arweinydd oedd y Parchedig Ifor ap Gwilym a'r organydd oedd Geraint Roberts, Bethel, Prestatyn. Darparwyd lluniaeth rhwng cyfarfod y bore a chyfarfod y prynhawn. Yn ystod cyfarfod y prynhawn cafwyd eitem gan Hogiau'r Berfeddwlad. Roedd cynulleidfa dda iawn yn y ddau gyfarfod.

*Gohebydd – Siân Price*

## Eglwys Unedig Colwyn

**ER COF ANNWYL**
Ar ddydd Gwener Mai 5ed cynhaliwyd gwasanaeth angladd y ddiweddar annwyl Mrs Blodwen Jones (Bay View gynt) yng Nghapel Disgwylfa Penmaenrhos. Roedd y gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig R Ifor Jones gyda'r Parchedig Arglwydd J Roger Roberts yn ei gynorthwyo. Darllenodd Mr Jones deyrnged annwyl yn amlinellu bywyd Blodwen, a ysgrifennwyd gan Delyth ei merch. Yr organydd oedd Mr Ifor Clwyd Jones. Rhoddwyd Blodwen i orffwys ym Mynwent Gymunedol Llysfaen. Cydymdeimlwn yn ddwys â Delyth a'r teulu oll.

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau i Mrs Ann Owen sydd wedi derbyn llawdriniaeth ar ei chlun yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iddi a phob un o'n haelodau sydd yn wael ar hyn o bryd.

**CYFARFOD GWEDDI**
Buom ni fel Eglwys Unedig yn gyfrifol am y Cyfarfod Gweddi Undebol yn Horeb ar nos Lun Mehefin 5ed a chymerwyd rhan gan Ken, John a Rhiannon. Diolch i Mr Gwyn Jones am ei barodrwydd i fod yn organydd unwaith eto.

**COED CRAIG**
Cynhaliwyd Ffair Ardd flynyddol Coed Craig yn Eglwys Fethodistaidd San Siôr, Llandrillo yn Rhos ar Fehefin 17, diwrnod braf o haf. Codwyd dros £1000 er budd preswylwyr Coed Craig.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## Tabernacl, Llanfyllin

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod dechrau Mai. Yn gyntaf cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol, pan ddeallwyd bod yr ardal wedi casglu a danfon dros £2000 i bencadlys Cymorth Cristnogol ym Mangor. Gwnaed trefniadau ar gyfer Bore Coffi y Sadwrn wedyn yn Festri'r Eglwys ac un arall ym mis Medi. Yn yr oedfa undebol flynyddol yn Eglwys Myllin Sant, dan lywyddiaeth Mrs Ross Crawford, cymerwyd rhan gan aelodau o'r gwahanol eglwysi gyda Pauline Page Jones wrth yr organ. Roedd cyfanswm y Bore Coffi a'r casgliad ar y Sul yn £228.

**SUL Y MAER**
Cynhaliwyd yr oedfa undebol flynyddol ar ddydd Sul Mehefin 18fed yn Eglwys Myllin Sant dan lywyddiaeth Mrs Jennie Castle gyda Pauline Page Jones wrth yr organ. Offrymwyd y gweddïau gan y Parchedig Gwyndaf Richards ac anerchwyd gan y Parchedig Llywelyn Cummings. Roedd aelodau o Gyngor y Dref a'r Cyngor Sir ymhlith y gynulleidfa ynghyd â'r Maer sef y Cynghorydd David Goodman a J Bellingham, Clerc y Cyngor. Cyhoeddwyd bod Mr Tom Ellis o'r Tabernacl wedi ei enwebu ar gyfer Gwobr Ddinesig Llanfyllin am ei waith crefyddol yn yr ardal a'r ysgolion.

**BRYSIWCH WELLA**
Da deall bod Mrs Joyce Jones, Hafodunnos, gartref erbyn hyn ar ôl cyfnod hir yn Ysbytai Stoke a Gobowen. Dymunwn yn dda iddi ac i nifer o'n haelodau sydd yn dioddef anhwylderau.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Rhodri Prys Jones, un o gyn-ddisgyblion yr Ysgol Sul, ar ei

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

lwyddiant yn ddiweddar yn ennill dwy ysgoloriaeth o Gaerdydd a Llundain. Roedd yn wych gweld ei berfformiad yn y cyflwyniad ar deledu o'r 'Dioddefaint'. Llongyfarchwn ei frawd Gerwyn hefyd ar ei lwyddiant ym Mhrifysgol Caerdydd. Ar ddiwedd oedfa yn y Tabernacl ym mis Mehefin llongyfarchwyd Robin a Mona Hughes ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt.

*Gohebydd – Robin Hughes*

## Ebeneser, Ystumtuen

**COFFÂD**

Daeth siom a thristwch i ni yma yng nghapel Ebeneser, Ystumtuen, ac i'r ardal gyfan o glywed am farwolaeth annisgwyl Ian Robert Williamson yn 62 mlwydd oed ar 5 Mai, ar ôl cyfnod o salwch a wynebodd yn ddewr.

Magwyd Ian yn Llundain yn un o chwech o blant, ac ar ôl gadael ysgol fe ymunodd â'r T.A. (y Fyddin Diriogaethol) yn adran yr Heddlu Milwrol, lle gwasanaethodd am gyfnod o naw mlynedd. Wedi hyn bu yn rheolwr ffatri cynhyrchu bara yn Slough, ond fe newidiodd cwrs ei fywyd pan gafodd wahoddiad i barti Nadolig gan ffrind oedd yn byw yng nghyffiniau Aberystwyth, oherwydd yn y parti yma y cwrddodd â merch o'r enw Catherine – ac mae'r gweddill, fel y dywedir, yn hanes. Felly cefnodd Ian ar y ddinas a dod i fyw i ardal wledig Ystumtuen a Phonterwyd; priodwyd ef a Catherine yn 1995. Drwy ei bersonoliaeth hyfryd a chymwynasgar, daeth yn fuan yn rhan o'r gymuned, ac roedd hefyd yn gefnogol iawn i bopeth Cymraeg, yn medru siarad ychydig ond yn deall llawer.

Ei ddiddordeb pennaf ers yn ieuanc oedd beiciau modur a sefydlodd ef a'i ffrindiau glwb yn Aberystwyth o'r enw M.A.G. (Motor Action Group), clwb i unrhyw un oedd yn dwlu ar fotobeics, a buan y tyfodd yn glwb poblogaidd a llewyrchus iawn. Bu Ian hefyd yn aelod o'r Lleng Brydeinig, yn y garfan beicwyr modur.

Byddwn yn gweld eisiau Ian yn fawr yn Ebeneser gan iddo fod yn aelod gweithgar a brwdfrydig. Ef oedd â gofal yr adeilad a gweithiai yn ddiwyd i gadw'r lle'n daclus a diogel. Roedd ganddo ddawn arbennig i godi arian, trwy chwilio am grantiau a chymorth ariannol i helpu gyda'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen ar hen adeilad.

Cynhaliwyd ei angladd yn Ebeneser, Ystumtuen ar ddydd Sadwrn 20fed o Fai o dan arweiniad y Parchedig Alan Chipling, cyn ficer y plwyf, ynghyd â'r Parchedig Evan Mason Davies. Yr organydd oedd Mrs Susan Pugh. Cydymdeimlwn yn fawr â Catherine a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli gŵr a brawd a oedd mor annwyl a hoffus.

*Gohebydd - Ruth Parri-Owen*

## Pontrobert

**LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchiadau i Rhodri Prys Jones, Llanfyllin, ar ei lwyddiant yn canu'r brif ran yn y perfformiad cyntaf yn Gymraeg o'r 'Dioddefaint yn ôl Ioan', ac ar ennill dwy ysgoloriaeth.

**GWELLHAD**

Croeso adref o'r ysbyty i Ogwyn Davies, Rhosymenyn. Da ei weld oddeutu eto ac yn gwella. Rydym yn falch fod mab a merch yng nghyfraith Bronwen a Huw Gwalchmai yn parhau i wella gan fod y ddau wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

**CYDYMDEIMLO**

Trist yw cofnodi marwolaeth ein haelod hynaf, sef Gwyn Jones, Nantlle, yn 95 oed. Er na fu'n dda ei iechyd yn y blynyddoedd diwethaf, roedd ei hiwmor yn parhau. Roedd Gwyn yn hoff iawn o gerddoriaeth a chanu mewn Plygain. Cydymdeimlwn â'i briod Mair a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Coffa da amdano.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Pendref, Dinbych

**OEDFAON DINBYCH A LLANELWY**

Parhawn i addoli gydag aelodau Peniel yn Festri Pendref ac Eglwys Peniel Llanelwy. Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Mai a Mehefin. Cynhaliwyd gwasanaeth undebol Cymorth Cristnogol tref Dinbych yng nghapel St Thomas. Cymerwyd rhan ar ran Pendref gan Elfed Evans.

**FFAIR WANWYN**

Bore dydd Sadwrn, Mai 6ed cynhaliwyd Ffair Wanwyn yng Nghanolfan Eirianfa, sydd drws nesaf i'r capel. Daeth nifer dda o drigolion Dinbych a'r cylch i gefnogi achlysur llwyddiannus dros ben a gwnaed elw ariannol eithaf sylweddol. Diolch am gyfraniad pawb tuag at y ffair.

**DAEAREG DYFFRYN CLWYD**

Nos Fercher Mai 10fed cynhaliwyd noson gymdeithasol pan gafwyd darlith gan y Dr Wyn Hughes ar ddaeareg Dyffryn Clwyd. Cafwyd darlith arbennig o ddiddorol ac addysgiadol yn trafod hanes daearegol y dyffryn, o adeg ei ffurfio i'r de o'r Cyhydedd hyd at ei leoliad heddiw a'r gwahanol drefniant creigiau sydd yn ffurfio'r dyffryn presennol. Llywyddwyd y noson gan ein gweinidog y Parchedig Tudur Rowlands. Diolch i Mary a Ceri am drefnu lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y noson.

**DYMUNIADAU GORAU**

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da am wellhad buan i nifer o'n haelodau.

*Gohebydd – Mary Jones*

## Bethel, Rhiwbeina

**DEWCH I ADDOLI**

Mae ein gwasanaethau bore Sul yn cychwyn am 10.15yb. Cynhelir Ysgol Sul hefyd ar fore Sul yn ystod tymor ysgol. Estynnir croeso cynnes iawn i bawb.

**OEDFAON MIS MAI**

Yn ystod mis Mai cawsom gwmni'r Parchedig Cynwil Williams, Mrs Eirian Dafydd, Mr Gwilym Dafydd a'n gweinidog y Parchedig Evan Morgan. Diolch am eu cenadwri.

**BORE COFFI**

Diolch i'r aelodau a'r ffrindiau a ddaeth ynghyd, ar fore dychrynllyd o wlyb, i gefnogi'r Bore Coffi a drefnwyd i godi arian ar gyfer Cymorth Cristnogol. Ar waetha'r tywydd cafwyd cyfle braf i gymdeithasu.

**CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBEINA**

Nos Lun, Mai 15 cafwyd cyfle i groesawu Côr Meibion y Machlud dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cafwyd noson bleserus dros ben.

**DYMUNIADAU GORAU**

Danfonwn ein cofion at nifer o aelodau a ffrindiau'r capel sy'n methu mynychu'r gwasanaethau ar hyn o bryd. Roedd yn braf cael croesawu Mair Owen yn ôl atom wedi cyfnod hir o fethu mynychu'r gwasanaethau.

**Y GYMDEITHAS**

Ar Fehefin 13 aeth nifer o'r aelodau am dro i Fae Caerdydd a mwynhau pryd o fwyd yn y Côte Brasserie fel diweddglo i weithgareddau tymor Cymdeithas Bethel. Diolch i Gwenda am wneud y trefniadau.

**BANC BWYD CAERDYDD**

Mae'r aelodau yn ffyddlon iawn yn cyfrannu i'r Banc Bwyd o Sul i Sul. Diolch am y rhoddion hyn i gyd.

**MIS AWST**

Yn ôl ein harfer ni chynhelir oedfaon ym Methel yn ystod mis Awst ond bydd y gwasanaethau yn ailgychwyn ar ddydd Sul, Medi 3. Fe fydd y Gymdeithas yn ailddechrau ar fore Mawrth, Medi 12.

*Gohebydd – Gwilym E. Roberts*

**MEDI**

Mis y cnau, mis cynhaeaf, mis gwair rhos,
Mis y grawn melynaf,
Mis gwiw cyn gormes gaeaf,
Mis liw'r aur, mis ola'r haf. – *Tilsli*

# Y Rhifyn Olaf?

gan William H. Owen

Gyda newid dybryd yn y bywyd Cymraeg yn gyffredinol a chapeli'n cau ar raddfa gyflym nid oedd yn syndod clywed am ddiflaniad ein papur wythnosol cenedlaethol. Roedd ***Y Cymro*** wedi bodoli yn ei ffurf bresennol ers 85 mlynedd.




Daeth i fodolaeth yn 1932 wedi methiant y cyhoeddiad o'r enw *Y Cymro* yn Nolgellau. Papur enwadol oedd hwnnw yn cystadlu â phapur *Y Goleuad* a oedd yn cael ei gyhoeddi yng Nghaernarfon.

Hwnnw oedd y teitl a brynwyd gan Rowland Thomas o gwmni Woodalls a'r cyhoeddwr Hughes a'i Fab. Am £250 cafodd yr hawl i ddefnyddio enw *Y Cymro* ar y cyhoeddiad yr oedd am ei gynnig yn wythnosol. Perswadiodd John Eilian i fod yn olygydd cyntaf iddo gan ei fod eisoes yn golygu *Y Ford Gron* i'r cwmni yn Wrecsam.

A dyna'r cysylltiad uniongyrchol â byd crefydd wedi ei dorri, am y tro cyntaf er 1848. Fel papur yn cefnogi'r eglwys wladol y cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf, a thipyn o Saesneg ynddo. Yn Union Street, Bangor yr oedd yr argraffdy a'r cyhoeddwr a'r argraffydd oedd Edward Williams, Union Terrace, y Garth. Roedd ei gynnwys yn dangos y rhwyg rhwng Eglwyswyr ac Ymneilltuwyr y cyfnod.

Oherwydd dyledion rhoddwyd y gorau i'w gyhoeddi ym Mangor wedi dwy flynedd. Am y flwyddyn ddilynol cafodd gartref yn Llundain nes iddo symud i Dreffynnon ac yno y bu am naw mlynedd o 1851 i 1860. Yn Ninbych y cartrefodd am y chwe blynedd nesaf. Wedi bwlch o bedair blynedd daeth Isaac Foulkes (Llyfrbryf) yn olygydd iddo yn Lerpwl. Dyma'r cyfnod y dechreuodd Daniel Owen ysgrifennu penodau ei nofelau ynddo.

Yn 1907 mudodd eto – i dref Daniel Owen y tro hwn, am ddwy flynedd. Bu farw am gyfnod ond ymhen pum mlynedd, yn 1914, cafodd berchennog newydd yn Nolgellau nes iddo ddod i ben yn 1931.

Er mai papur cyffredinol oedd yr un a'i dilynodd bu cyfeiriadau mynych at y byd crefyddol. Yn wir, bu colofnau ynddo am flynyddoedd mawr yn cynorthwyo maes llafur yr Ysgol Sul. Y Parchedig Elfed ap Nefydd Roberts oedd y diwethaf i ofalu am hyn. Ond yn ddiweddar roedd y Parchedig Owain Llŷr Evans, Caerdydd, wedi ysgrifennu colofn am bynciau crefyddol perthnasol i'r oes.


Daeth honno fel y gweddill i ben ar 30 Mehefin a rhaid disgwyl i weld a fydd y papur yn atgyfodi mewn rhyw ffurf neu'i gilydd. Os daw anadliad newydd iddo a fydd crefydd yn cael lle ynddo?

# BWYD I'R MEDDWL

gan Bet Holmes

*"Dyw hi ddim werth taten!"*

Dyna beth mae pobl yn ei ddweud, ond byddai Moist von Lipwig, un o gymeriadau Terry Pratchett, yn anghytuno. Yn y llyfr *Making Money* mae'n esbonio pam: "Pe baech chi yn cael eich llongddryllio ar ynys anial, beth fyddai well 'da chi, sachaid o aur neu sachaid o dato?... gyda thalpen o fenyn a thaten, mae pryd o fwyd gyda chi, bob man yn y byd. Claddwch aur, a byddwch yn



pryderu am ladron yn ddi-stop. Claddwch dato, a gydag amser byddwch yn edrych ar ddifidend o fil y cant." Yn amlwg iawn, mae tato yn werth mwy nag aur i Moist, sydd yn gadeirydd ar fanc Ankh-Morpork.

Byddai'r Parchedig Jean-François de la Marche yn cytuno â Moist. Ef oedd esgob olaf Saint Pol de Leon yn Llydaw, a gafodd ei alltudio i Lundain oherwydd ei wrthwynebiad i'r Chwyldro Ffrengig.



Yno y bu farw yn 1806. Roedd yn gofidio am dlodi ei braidd, a hybodd nhw i dyfu tato; roedd ganddo arddwyr yn ei ardd ei hunan oedd yn dangos manteision y llysieuyn, nad oedd wedi ennill poblogrwydd yn Llydaw eto, i'r werin. Bu ei ymdrechion yn llwyddiannus, a rhoddwyd yr enw "Eskob ar Patatez" arno! Byddai'r hen esgob yn ochri â'r Pab Ffransis hefyd. Meddai fe: "Gweddïwch dros bobl dlawd. Wedyn rhowch fwyd iddyn nhw. Dyna wir ystyr gweddi". Fe ddylai pob un ohonom weddïo yn yr un ffordd.

Un o fanteision tato oedd nad oedd yn rhaid talu'r degwm, sef treth i'r eglwys, arnyn nhw. Roedd yr un peth yn wir am flawd du (*buckwheat*), sydd heb glwten. Dyma rysáit hawdd sydd yn defnyddio'r ddau: *Kouign Patatez*, neu Gacen Tato sydd yn mynd yn dda iawn gyda selsig neu ffowlyn.

**I weini 4, bydd arnoch angen:**

600g (pwys a chwarter) o dato wedi'u berwi
130g (4 owns) o fenyn hallt
130g (4 owns) o flawd du (neu o flawd gwenith)
melyn wy
halen, pupur ac ychydig o nytmeg

Cynheswch eich ffwrn i 180°C, nwy 6 a seimiwch ddysgl fflan.

Stwnsiwch y tato, ac wedyn ychwanegwch y blawd a'r menyn (mae hyn y tu hwnt o hawdd mewn blendiwr). Blasuswch gyda'r halen, pupur a nytmeg.

Wedyn rholiwch y cymysgedd i siâp crwn o ryw 1/2" i 3/4" o drwch, a'i ddodi yn y ddysgl. Cribwch y top gyda fforc i'w addurno, a'i iro gyda'r wy.

Pobwch am 30 munud tan i'r gacen fod yn frown a chras.



CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

## Ebeneser, Dolgellau

**CYDYMDEIMLO**
Ar y 14eg o Fai bu farw John, gŵr Mrs Mary Dillon. Mae Mary'n selog iawn i wasanaethau a gweithgareddau Ebeneser. Cydymdeimlwn yn ddwys â hi a'i mab yn eu profedigaeth.

Ar ddydd olaf mis Mehefin bu farw Mrs Ann Kerry wedi cystudd hir, pan ofalwyd amdani gan ei gŵr, David. Roedd Ann yn aelod o'r capel ers llawer blwyddyn, a thrwyddi hi yn ystod gweinidogaeth y diweddar Barchedig Emrys Evans y sefydlwyd gwasanaeth Saesneg yn Ebeneser. Mae Alison ei merch yn mynychu'r capel yn rheolaidd. Cydymdeimlwn â hi, ei thad a'i brawd yn eu colled.

**GWELLHAD**
Braf gweld Mrs Mary Davies wedi gwella o anhwylder achosodd iddi fod yn yr ysbyty am noson. Mae Dai Morgan yntau wedi gwella'n dda erbyn hyn yn dilyn ei lawdriniaeth.

**GARDD Y CAPEL**
Eleni eto mae Mr Hugh Humphreys wedi plannu blodau yn yr ardd. Diolch iddo ac i Dai am wneud y fynedfa'n hyfryd iawn.

*Gohebydd – Gwyneth Meredith*

## Ebeneser, Treuddyn

**BABAN NEWYDD**
Llongyfarchiadau i Mrs Gweryl Hughes ar ddod yn nain unwaith eto, y tro yma i Mathew Ieuan Evans, mab cyntaf Laura a Dewi sy'n byw ym Mwcle. Pob bendith arnynt oll.

**CYDYMDEIMLO**
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mr Raymond Milne, un o aelodau hynaf y capel. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Barbara, ei ferch. Mawr fu ei gofal amdano am nifer fawr o flynyddoedd. Bydd colled fawr amdano yn y capel a'r gymuned.

**GWASANAETHAU**
Yn ystod Mehefin a Gorffennaf cynhaliwyd gwasanaethau dan ofal ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans, Mrs Maryl Rees, Mrs Elizabeth Jones, Wendy Swan, y Parchedig Marc Morgan a'r Parchedig Ddr Jennie Hurd. Hefyd ar Fehefin 11eg cynhaliwyd ein Rali ddwyieithog flynyddol dan ofal Mrs Siân Williams pan wnaeth aelodau o gapeli eraill y pentref ymuno â ni.

**Y GYMDEITHAS**
Ar Fehefin 7fed ein gŵr gwadd yn y Gymdeithas oedd Mr David Davies, cyn aelod sydd yn awr yn byw yng Nghastell Newydd Emlyn. Rhoddodd sgwrs ddiddorol a dangos lluniau o'i ymweliad â Seland Newydd. 'Brethyn Cartref' oedd testun ein cyfarfod ar Orffennaf 5ed.

**Byddwn yn cynnal ein Te Prynhawn blynyddol yn Hafan Deg, dydd Sadwrn, Medi'r 9fed am 3.00yp.**

**GWASANAETHAU ARBENNIG YR HYDREF**
**Cynhelir ein Cyfarfod Pregethu ar nos Sul, Medi'r 10fed pan fydd y Parchedig Brian Evans yn gwasanaethu. Hefyd, ar nos Sul, Hydref 8fed, bydd y Parchedig Ddr Siôn Aled Owen yng ngofal ein gwasanaeth Diolchgarwch.**

**DYMUNIADAU GORAU**
Hoffem anfon ein cofion cynhesaf at aelodau a ffrindiau sydd ddim yn dda ar hyn o bryd.

*Gohebydd – Glenys Davies*

## Soar, Maenan

Fore Sul yr ail o Orffennaf a hithau yn fore braf, daeth ugain ohonom ynghyd i gynnal yr oedfa olaf yng nghapel Soar dan arweiniad y Parchedig R. Ifor Jones. Daeth Mrs Rhian Jones a chyfeillion Eglwysbach a Llanrwst atom a daeth Islwyn i gynrychioli'r Pwyllgor Ardal. Er tristed yr achlysur cawsom oedfa Gymun fendithiol a diolchwyd am yr hyn a gafwyd. Diolchodd Ann i bawb am eu cefnogaeth a dywedodd iddi fod yn aelod yn Soar ers dros hanner can mlynedd.

*Gohebydd – Eira Jones*

## Horeb, Llanrwst

**DYMUNIADAU GORAU**
Ar ôl cyfnod yn yr ysbyty rydym yn falch iawn fod Mrs Margaret Hughes wedi gwella yn ddigon da i ddychwelyd i Lanrwst. Erbyn hyn mae hi wedi ymgartrefu yng Nghartref y Borth ac rydym fel aelodau yn ymweld mor aml ag y gallwn.
Dymunwn yn dda i Rhys Roberts, mab Arwel ac Elfrys Roberts, Arfron, ar ei briodas â Jen o ardal Harrogate. Mae'r ddau yn byw ac yn gweithio yn Llundain. Cynhaliwyd y briodas ddydd Sadwrn, 8fed o Orffennaf.

**BLODAU**
Diolch i Elfrys am baratoi gosodiad o flodau yn Eglwys Sant Crwst ar ran Horeb yn eu gŵyl flodau yn ddiweddar.

*Gohebydd – Eira Jones*

## Shiloh, Tregarth

**GWAELEDD**
Anfonwn ein cofion at Elfed, priod un o'n haelodau ffyddlon sef Helen Jones. Mae wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ar fwy nag un achlysur yn ddiweddar. Mae'n dda cael dweud bod ein trysorydd ffyddlon, Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, gartref wedi cyfnod o ddeg wythnos yn yr ysbyty, er ei bod yn dal yn cael anhawster i gerdded ar hyn o bryd. Gofal mawr rŵan, Eirwen, a gadael i Wynn wneud popeth yn ôl ei allu i helpu yn y tŷ. Yn sicr mae'n giamstar ar wneud hynny!

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn ag un o'n haelodau, Olwen Jones, Coed Hywel, sydd wedi colli ei mam yn ddiweddar. Un o ardal Pontllyfni oedd mam Olwen. Ein cofion atoch i gyd fel teulu.

**CYFARFOD CROESO**
Cynhelir Cyfarfod Croeso yn Shiloh ar nos Wener, 1 Medi, am 6 o'r gloch i groesawu'r Parchedig Richard Gillion a'i wraig Lesley i'n plith. Croeso cynnes i bawb. Mae Richard yn dod yn weinidog i ofalu am Ardal Môn ac Arfon o fis Medi ymlaen a bydd yn ymgartrefu ym Mangor.

**GAIR O DDIOLCH**
Wrth groesawu'r Parchedig Richard Gillion i'n plith fe hoffem fel Eglwys ddiolch o galon i'n gweinidog presennol am ei ofal, ei garedigrwydd a'i ymroddiad llwyr i ni yn Shiloh yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er ein bod yn ffarwelio ag ef fel gweinidog arnom, rydym yn hynod falch y bydd yn parhau i bregethu yn Shiloh y flwyddyn nesaf. Diolch o galon Gwynfor am bopeth, a'n cofion annwyl atoch chi a Katie.

**DRWS AGORED**
Croeso mawr i bawb ddod draw am baned a sgwrs yn Shiloh bob bore Gwener o 10 o'r gloch hyd 12 o'r gloch.

*Gohebydd – Gwenda Davies*

## Ebeneser, Caernarfon

**RHODD**
Derbyniasom rodd anrhydeddus iawn gan T. Arfon Roberts, cyn-drysorydd yr eglwys, er cof am ei briod annwyl, Mair. Gwerthfawrogwn eu ffyddlondeb i'r eglwys dros y blynyddoedd a'u cariad diffuant tuag at yr achos yma yn Ebeneser. Mae gennym atgofion hapus am Mair a'i chyfraniad arbennig i dîm y chwiorydd – y ddawn ganddi i gynhyrchu teisennau blasus dirifedi ar gyfer ein Te Bach dros y blynyddoedd.

**COFION**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at Kevin, mab Myfi Powell Jones, a fu'n derbyn triniaeth yn un o ysbytai Manceinion.

*parhad ar y dudalen nesaf*

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Karen Pritchard, merch Myfi Powell Jones, ar lwyddiant ei dawnswyr a enillodd bum gwobr yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Cafodd y dawnswyr ifanc, dan ofal eu harweinydd medrus, lwyddiant ysgubol yn y blynyddoedd diwethaf. Llongyfarchwn hefyd ŵyr a wyres Myfi, sef Elena a Dylan, ar eu llwyddiant yng ngholegau Aberystwyth a Bangor eleni. Ddechrau mis Medi bydd Elena yn dechrau ei gyrfa fel athrawes yn Ysgol Glan Clwyd. Daeth llwyddiant hefyd i ran Catrin Jones, un o aelodau ieuanc yr eglwys, gyda Seindorf Bres Ysgol Syr Hugh Owen. Daeth buddugoliaeth arbennig i'w rhan yn Eisteddfod yr Urdd eleni – Catrin ar ben ei digon a ninnau fel eglwys yn ymhyfrydu yn ei dawn.

*Gohebydd – Branwen L. Edwards*

# WYNEBU NEWID

gan y Parchedig J. Bryn Jones

Mewn erthygl ddiweddar, soniais am y potensial sydd gan newidiadau i effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar ein bywydau beunyddiol. Gan fod bywyd heddiw mor wahanol i ddoe, dim ond trwy addasu a dygymod â newid y gallwn symud ymlaen.

Un o nodweddion gweinidogaeth yr Eglwys Fethodistaidd yw bod pob gweinidog yn barod i weinidogaethu ym mha Gylchdaith bynnag y bydd y Gynhadledd yn ei anfon iddi.

Dechreuais fy ngweinidogaeth fel dyn sengl yng Nghricieth; treuliais ddwy flynedd yno ac roedd bywyd yn gyfforddus a hwylus gyda phob cyfleuster modern ar gael. Priodais â Vera ym 1955, yn ystod y cyfnod hwnnw, ac yn fuan ar ôl ein priodas fe anfonwyd Vera a minnau i Gylchdaith Ystumtuen. Yno roeddem yn byw mewn pentref bach gwledig oddeutu 12 milltir o Aberystwyth, gyda hanner dwsin o dai, siop, Swyddfa Bost a chapel. Doedd dim trydan na dŵr yn y tŷ, ar wahân i'r tap dŵr oedd ychydig lathenni oddi wrth y tŷ. Ysgrifennais at Glerc y Cyngor i holi pa bryd y deuai trydan a dŵr, ond nid oedd gan y Clerc druan ateb boddhaol!

Nid lle i segura oedd Ystumtuen oherwydd roeddwn yn gyfrifol am chwe eglwys, a'r rheiny i gyd ar wasgar. Ar nodyn arall, dysgais yrru car tra buom yno, gyda chymorth y Parchedig J Haines Davies ac Emyr, mab y siop.

Wedyn cawsom ein hanfon i Helygain yng Nghylchdaith Treffynnon am dair blynedd, cyn cael ein hanfon eto i Berffro, Sir Fôn, ac yno y buom am chwe blynedd, cyfnod hapus a phrysur iawn. Ar ddiwedd ein cyfnod yn Berffro, cawsom ein hanfon i'r Wyddgrug ac yn wir "dan ni yma o hyd"!

Dros y blynyddoedd, hefyd, gwelwyd newid a chynnydd mewn llawer maes, nid lleiaf gwybodaeth wyddonol. Fel Cristnogion, cawn ein herio i ystyried ein cred yng ngoleuni gwahanol ddarganfyddiadau. Ystyriwn hanes y creu yn y ddwy bennod gyntaf yn Llyfr Genesis, yn enwedig y bennod gyntaf. Cefais i a phawb ohonom fel Cristnogion ac aelodau eglwysig ein dysgu i gredu bod Duw wedi creu'r greadigaeth mewn chwe diwrnod, ac roeddem yn ddigon parod a hapus i wneud hynny. Erbyn heddiw, mae llawer yn dadlau nad Duw oedd y Crewr fel y sonnir amdano yn Genesis, am mai o ganlyniad i'r Glec Fawr y daeth y bydysawd i fodolaeth.

Does dim o'i le ar stori'r creu, oherwydd mae'r hyn sydd yno yn gyflawn ac yn dderbyniol. Yn fy meddwl i, yr hyn sy'n bwysig ac yn gwbl angenrheidiol yw geiriau cyntaf y stori: "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear." Dyma'r Duw a gyfododd ei Fab Iesu ar y trydydd dydd ac ynddo Ef y rhown ein ffydd.

## Ardal Bathafarn

**DATHLU**
Llongyfarchiadau calonnog i Dylan a Siân Parry, Gwyddelwern, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf, ac i Ifor Parry ar ddod yn hen daid. Ganwyd Hari Cedwyn i Dilwen a Huw. Yr un yw ein llongyfarchiadau i Gwyn Williams ar ddod yn hen daid i Elin, merch fach Ffion a Clwyd, ac i Bethan ac Eifion ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf.

Dymuniadau gorau i Olwen Jones, Bryn Teg, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90. Pob bendith iddi a phob hwyl gyda'r dathlu.

Pob bendith i Glesni (merch Clwyd ac Eleri, Gwyddelwern) a Siôn Roberts ar achlysur hapus eu priodas.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Mrs Margaret Hughes, Abbeyfield, o golli mab yng nghyfraith sef Barry Williams, cyn ddirprwy bennaeth Ysgol Brynhyfryd. Ein cofion anwylaf atoch ynghyd â Marian a'r teulu. Yr un yw ein cydymdeimlad at Hywel ac Enid Edwards o golli brawd a brawd yng nghyfraith sef Ron Edwards, Betws Gwerfyl Goch. Hefyd at Ann Jones, Plas Isa, o golli brawd sef Bob Morris, Rhewl, Llangollen. Meddyliwn hefyd am Gareth a Lynne Hughes, Rehoboth, Corwen, sydd wedi colli brawd a brawd yng nghyfraith yn Rhydychen, ac am Ifor Parry a'r teulu a gollodd gyfnither sef Mona White. Meddyliwn amdanoch i gyd yn eich chwithdod am anwyliaid.

**GWELLHAD BUAN**
Da deall fod Margaret Evans a Gwyneth Griffiths yn well ar ôl yr anffawd a gawsant. Ein cofion hefyd at Olwen Griffiths, Beryl Evans a Gretta Davies.

**CYNHADLEDD PREGETHWYR CYNORTHWYOL**
Daeth criw ynghyd i gapel Bathafarn ym mis Mai o dan arweiniad y Parchedig Jennie Hurd. Paratowyd paneidiau gan Dilys, Meta ac Elizabeth.

**GWASANAETH CYMORTH CRISTNOGOL**
Bendithiol iawn oedd cael dod at ein gilydd fel eglwysi'r dref i Eglwys Gatholig Rhuthun. Cymerwyd rhan gan aelodau'r gwahanol gapeli ac eglwysi gan gynnwys Elizabeth o Fathafarn. Roedd yr oedfa o dan ofal y Parchedig John Carter a chafwyd neges bwrpasol gan Mary o Wrecsam. Cawsom i gyd ddarn o wlân coch a'r cyfle i roi cwlwm ynddo, un am bob person oedd yn dod i'r meddwl wrth weddïo ac yn symbol ein bod wedi ein clymu i'n gilydd fel chwiorydd a brodyr yng Nghrist. Bendithiol iawn a da oedd i ni fod yno.

**NEWID AELWYD**
Dymuniadau gorau i Audrey a Llew Jones, Wern Ddu, wrth iddynt symud tŷ. Pob hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

**DIOLCH**
Diolchwn i'r rhai sydd wedi gwasanaethu yn ein hoedfaon: y Parchedigion Martin Evans-Jones, Peter Jennings, Robin Fox a Tom Evans Williams; Elwyn Ashford Jones ac Elizabeth. Diolch i'r cyhoeddwyr sef Dafydd a Rhodri a'r cyfeilyddion sef Meta, Rhian ac Elizabeth. Yng Nglyndyfrdwy cynhaliwyd oedfaon o dan ofal y Parchedig Tudur Rowlands ac Elizabeth. Daeth aelodau Gwyddelwern a Rehoboth, Corwen, yno i gydaddoli.

**BORE COFFI**
Cafwyd cyfle i roi rhoddion tuag at Gronfa Capel Bathafarn a chasglwyd y swm o fil o bunnau. Diolch i bawb am eu haelioni.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

# Y GYNHADLEDD FETHODISTAIDD

gan Maryl Rees



Cynhaliwyd cynhadledd 2017 yng nghanolfan hwylus yr Hilton Birmingham Metropole. Yn dilyn eisteddiadau'r gweinidogion ar y dydd Iau a'r dydd Gwener, agorwyd y Gynhadledd i'r cynrychiolwyr brynhawn dydd Sadwrn gyda sefydlu'r Llywydd a'r Is-lywydd. Mae hwn yn achlysur teimladwy, pan gyflwynir Beibl Maes John Wesley i'r Llywydd. Yna cawsom wrando ar araith ein Llywydd newydd, y Parchedig Loraine Mellor, wedi ei seilio ar Ioan 21:1-13. Disgrifiodd sefyllfa sy'n gyfarwydd iawn i ni – aelodaeth yn lleihau a phrinder gweinidogion – ond, meddai, does gennym ni ddim gormod o gapeli, dim ond prinder pobl ynddyn nhw. Rhaid inni newid y ffordd rydym yn ymestyn allan i gymdeithas a bod yn gynhwysol. Rydym yn rhan o eglwys sy'n dirywio ond nid yn rhan o efengyl sy'n dirywio. Rhaid i'n gwasanaethau ar y Sul fod yn gyson a pherthnasol, gyda Duw yn ganolbwynt. Rhaid inni brofi'r Iesu yn ein haddoliad, gwrando ar ei lais a gwneud penderfyniadau fydd yn rhoi gobaith inni i'r dyfodol.

Yna ar ôl egwyl cawsom glywed araith yr Is-lywydd, Mrs Jill Baker, a ddechreuodd gyda llawer o hiwmor ar thema rhythm bywyd. Ond yn ogystal â llawenydd mae'n rhaid inni brofi galar. Rhaid inni ddysgu derbyn y ddwy ochr a dangos cariad a goddefgarwch tuag at ein gilydd.

Fore Sul, braf oedd cael bod yn rhan o'r gynulleidfa enfawr pan dderbyniwyd 50 o weinidogion a diaconiaid, oedd i'w hordeinio'n hwyrach yn y dydd, yn gyflawn aelodau o'r Cyfundeb. Cyn y gwasanaeth cawsom fwynhau gwrando ar Gôr y Gymdeithas Fethodistaidd Ffijiaidd. Pregethwyd gan y Llywydd a rhoddwyd y siars i'r gweinidogion gan yr Is-lywydd.

Fore Llun bu trafodaeth ddiddorol ar bwysigrwydd Cyfundeb a'r neges i ni, er ein bod yn digalonni oherwydd dirywiad, ein bod yn rhan o deulu llawer mwy. Soniodd y Parchedig Asiri Perera, Llywydd Eglwys Fethodistaidd Sri Lanka, fod rhywun wedi gofyn iddo pan aeth i'r weinidogaeth 30 mlynedd yn ôl pam roedd yn ymuno â llong oedd yn suddo. Ond mae'r eglwys yn Sri Lanka wedi tyfu o 25,000 i 132,000 a hynny er bod erledigaeth yn y wlad. "Wnaiff eglwys Iesu Grist byth farw," meddai. "Mae Duw yn dal i weithio." Clywsom hefyd fod twf o 10% yn flynyddol yn yr eglwys yn Cuba.

Aeth y dyddiau dilynol i ymdrin â busnes amrywiol. Brynhawn Mawrth cafwyd gweithdai i drafod y Cyfamod rhwng yr Eglwys Fethodistaidd ac Eglwys Loegr. Cymysg oedd yr ymateb i'r ddogfen ymhlith Synodau Lloegr a theimlem ni o Synod Cymru, Wales Synod a Synod yr Alban nad oedd ystyriaeth wedi ei rhoi i'n sefyllfaoedd ni.

Cynhaliwyd Oedfa Gymun y Gynhadledd fore Iau a gwefr oedd bod yn un o ryw 350 yn cyd-gymuno. Yn y prynhawn buom fel aelodau o'r gwahanol Synodau yn trafod ein hystadegau. Ein cydymaith ni yn Synod Cymru oedd y Parchedig Ddr Laurence Graham, Llywydd Cynhadledd Fethodistaidd Iwerddon. Cawsom fapiau a graffiau a nifer o gwestiynau i'w trafod a'r hyn ddaeth yn amlwg oedd fod trwch y boblogaeth, fel y gwyddom, yn Ne Cymru. Yno hefyd mae twf yn yr iaith Gymraeg ond nid oes gennym, fel Synod Cymru, bresenoldeb mewn llawer o'r ardaloedd hyn. Rhywbeth y dylem ei ystyried ac eistedd i lawr i'w drafod gyda Wales Synod efallai.

Bu'n wythnos flinedig ond braint oedd cael bod yno a theimlo'n rhan o eglwys fywiog fyd-eang a chael cyfle i gymdeithasu â Methodistiaid o bob cwr o'r byd. Diolch am y cyfle.

# Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru




Yng nghyfarfod Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru ar 16 Mai, sefydlwyd Llywydd newydd y Cyngor am y tair blynedd nesaf sef Mr Rheinallt Thomas. Bu Mr Thomas yn flaenor gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru ers 1966 ac yn gyfarwyddwr y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol am 21 mlynedd. Yn ei anerchiad i'r Cyngor, cyfeiriodd at rai o nodau ac amcanion Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru gan gynnwys hybu cysylltiadau da rhwng arweinwyr yr enwadau sy'n aelodau o'r Cyngor hwn; sicrhau y clywir y llais anghydffurfiol ynghylch materion o bwys yn genedlaethol ac yn lleol a sicrhau y cynrychiolir yr enwadau sy'n aelodau mewn digwyddiadau crefyddol a seciwlar.

Pwysleisiodd Mr Thomas fod Cristnogion "yn cael eu hysgogi gan ffydd, gweddi, cariad ac addoliad pobl Dduw. Mae cyfraniad i'w wneud wrth rannu rhyw gymaint o stori Duw o fewn y gymuned ehangach. Y stori honno am bobl a'u profiad, o sialens a dewis, o gyfle a gras, yw symbyliad yr Eglwysi Rhyddion. Ond i ddeall y stori honno am ffydd a gweithredu, stori'r Beibl, mae'n rhaid ei seilio ar yr ysgolheictod gorau a'i rhannu o fewn gweinidogaeth gweddi pobl Dduw."

Dywedodd hefyd fod yn rhaid inni ddefnyddio iaith cydraddoldeb, gwerthfawrogi unigolion, grymuso, mwynhad a hunaniaeth. Mae'n bwysig hyrwyddo hawliau dynol i bawb a diddymu anffafriaeth, gan gynnwys anffafriaeth grefyddol: "Y dasg i ni yw bod yn llais dros gynhwysiad, gan ymgymryd â materion o gyfiawnder, o sefyll dros yr hyn sy'n iawn mewn sefyllfaoedd anghyfiawn." Gobeithia'r Llywydd y bydd y Cyngor yn dod yn fwy cyhoeddus a llafar ac, fel un o bartneriaid CYTÛN, y ceir cydweithrediad pellach drwy'r sefydliad ardderchog hwnnw, i wireddu'r gobeithion a amlinellwyd yn yr anerchiad a cherdded ymlaen yn hyderus i'r dyfodol.

# Dylanwadau



gan Philip Edwards

A finnau erbyn hyn yn agosáu at ymddeol, gofynnwyd imi yn ddiweddar pa ddylanwadau sydd wedi bod ar fy mywyd. Mae llawer iawn ohonynt wrth gwrs – a phob un wedi cyfoethogi fy ffydd mewn gwahanol ffyrdd. Y dylanwad mwyaf oll yw fy nheulu, yn blentyn ac wedyn yn ddiweddarach fel dyn priod. Dyna a ffurfiodd fy nghymeriad.

Magwraeth gymharol dlawd a gawsom, ond mewn ffyrdd eraill, pwysicach, roeddem yn gyfoethog tu hwnt. Gŵr mwyn a charedig oedd fy nhaid, un o'r rhai a oroesodd y Rhyfel Mawr. Ni chlywais erioed mohono'n dweud un gair angharedig am neb; roedd ei deulu a'i ffrindiau oll yn meddwl y byd ohono. Roedd Mam hefyd yn dyner a charedig, yn gofalu am ei phlant a'n dysgu i barchu a gofalu am eraill. Roedd llawer o chwerthin i'w glywed yn ein cartref, "Y Borth", a phanad a chroeso cynnes i bawb bob amser. Mecanic oedd fy nhad, dyn gweithgar a medrus iawn. Byddai o hyd wrthi'n datrys rhyw broblem i un o'i gyfeillion neu un o'r cymdogion. Roedd yn gwbl ddi-flewyn ar dafod ac ni allai ddioddef ffyliaid yn llawen. Ystyriai chwarae teg yn beth pwysig iawn ac ni allai ymatal rhag ymyrryd petai'n gweld pobl yn cael eu trin yn annheg neu pe gwelai rywun yn cymryd mantais. Dylanwad mawr arall arnaf yn y blynyddoedd cynnar, a hyd heddiw yn wir, yw fy mrawd a'm chwaer. Dau o rai annwyl a chlên. Mae fy ngwraig hefyd yn fy atgoffa'n feunyddiol, drwy ei hymddygiad anhunanol, mor bwysig yw caredigrwydd a gofalu am eraill.

Bûm yn ffodus iawn yn fy magwraeth: teulu Cymraeg, cariadus, gofalus, gweithgar, parchus a oedd yn meithrin y gwerthoedd gorau. Byth yn croesi'r stryd oddi wrth bobl mewn angen neu drafferthion. Byddaf yn ddiolchgar iddynt tra byddaf byw am eu dylanwad tawel, diarwybod. Gobeithio i minnau lwyddo i ddilyn drwy fy mywyd egwyddorion gonestrwydd a pharch. Dyna y ceisiais ei wneud yn fy ngyrfa fel heddwas a Chynghorydd Sir.

At hynny, wrth gwrs, bu dylanwadau eraill pwysig arnaf. Wna i byth anghofio un bore Sadwrn, a Neuadd Idris dan ei sang, pan wrandewais ar Gwynfor Evans yn areithio. Roedd y dagrau'n powlio i lawr fy ngruddiau wrth imi wrando ar y gŵr mawr hwn, arwr i mi: o'r dydd hwnnw ymlaen, roeddwn wedi fy nhynghedu i garu a gwasanaethu fy nghenedl a'm hiaith. Nid oes neb, mewn gwirionedd, o'r holl areithwyr a glywais yn fy mywyd, yn dod yn agos at fedru cymharu â mawredd a dylanwad Gwynfor.

Dylanwad mawr arnaf hefyd oedd Capel y Borth, Bontddu. Methodistiaid oedd fy nheulu a chefais fy nerbyn yng Nghapel Bethania, ond roedd Capel y Borth, sef capel yr Annibynwyr, yn agos at fy nghartref ac yno y byddwn yn addoli. Yn ogystal â'i agosrwydd at fy nghartref, hoffwn fynd i Gapel y Borth am mai yno yr oedd cyfaill a adwaenid fel Wil Ieir (bu'n cadw ieir a hwyaid ar un adeg, medden nhw!) yn godwr canu. Dyn bychan, eiddil oedd Wil ond roedd ganddo lais nerthol a hynod soniarus; ef wnaeth blannu cariad ynof at ganu cynulleidfaol. Daw'r dagrau'n rhwydd wrth glywed emynau, hefyd! Rwy'n hoffi galw i mewn at yr Annibynwyr o bryd i'w gilydd hyd heddiw.

Mae'n debyg nad oes yr un diwrnod yn mynd heibio heb imi gael fy nylanwadu er lles gan rywun. Rhywun yn dangos caredigrwydd neu gwrteisi, pobl yn dangos cariad at ei gilydd – mae'r holl bethau hyn yn ein hatgoffa o'r modd y dylem fyw fel Cristnogion. Mae cariad fy ngwraig, a gaiff ei fynegi mewn cynifer o ffyrdd, yn fy atgoffa beunydd mai cariad yw'r dylanwad cryfaf oll. Dim ond inni ymbwyllo a bod yn barod i sylwi, mae cynifer o bethau yn ein hatgoffa o rym cariad. Ond i mi, fel pob Cristion ym mhob man, y dylanwad pennaf yw aberth Iesu ar y groes. Nid oes yr un aberth na dylanwad daionus i'w gymharu â hyn.


---

Disgynnodd yr organ yn
ddarnau
A'r hen godwr canu'n ei
ddagrau.
Roedd na dwll yn y to
A'r tŷ capel heb lo
Cau'r Achos oedd un o'r
opsiynau.
– *RJ*




Mae'r saint yn y wlad wedi sylcio
Am nad oedd trip ysgol Sul wedi'i
blanio,
Maen nhw am fyned
ar heic
Pob un ar ei feic
O Gymru i ymyl
Ohaio.
– *RJ*





# YMDDEOLIAD Y PARCHEDIG GWYN C. THOMAS

gan W. Arvon Roberts



Mewn dyddiau pan welwn nifer y gweinidogion yn prinhau'n ddi-ildio, rydym yn fwy ymwybodol nag erioed o faint ein colled pan fydd un ohonynt yn ymddeol. Tristwch oedd clywed yng Nghyfarfod Ardal De Gwynedd fod y Parchedig Gwyn Thomas yn eistedd i lawr ddiwedd mis Awst.

Yn frodor o Drawsfynydd, mae Mr Thomas yn ymwybodol iawn o'i wreiddiau. Yn ymhyfrydu yn nhraddodiad diwylliannol a chrefyddol Meirionnydd a Llŷn, fe ymegniodd i geisio gwarchod a pharhau'r traddodiad hwnnw. Bu dylanwad y cartref yn fawr iawn ar ei fywyd cynnar: yno fe welodd gadernid digyfaddawd ei rieni gyda'u hargyhoeddiadau cryfion.

Symudodd y teulu o Drawsfynydd i Abersoch ac yna i'r Ffôr. Addysgwyd Gwyn yn Ysgol Ramadeg Pwllheli a'r Coleg Normal, Bangor. Bu'n athro yng Ngwersyllt ac yn brifathro yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog a Llanfynydd. Yng Ngorffennaf 1961, priododd ag Ann Elizabeth Griffith o Ddyffryn Aeron, cymar ffyddlon a gweithgar a fu'n gymorth amhrisiadwy iddo i gyflawni ei weinidogaeth. Bu Ann farw yn dilyn afiechyd hir a chreulon yn 2005. Daeth y ddau yn rhieni gofalus a chariadus i Guto a Catrin.

Yn 1990 ymatebodd Gwyn Thomas i hysbyseb yn y *Gwyliedydd*, yn gofyn am gymorth bugeiliol ar gyfer pum eglwys yn ardal Porthmadog lle roedd ar y pryd 233 o aelodau. Llawenydd mawr oedd cael derbyn ei gais yn unfrydol. Erbyn diwedd 1990 roedd yn ymgeisydd am y weinidogaeth ac fe'i hordeiniwyd yn Synod y Gwanwyn a gynhaliwyd ym Mhenrhyndeudraeth yn 1993. Daeth yn Arolygwr arnom ym Medi y flwyddyn honno. Oherwydd gwaeledd ei briod fe ymddeolodd Gwyn yn 1997 ond daeth yn ei ôl atom wedi i'r Parchg. Briant Smith ymadael i fynd i Ynys Wyth yn 2001, y tro hwn fel gweinidog rhan-amser. Cafodd ffrind da a chefnogol i rannu'r gwaith sef y diweddar Barchg. R. Glyn Williams. Drwy gyfnod anodd iawn a phryderus ar adegau oherwydd gwaeledd Mrs Thomas, daliodd Gwyn i wasanaethu'r Gylchdaith. Yn 2007 daeth i Bwllheli i fyw. Cafodd yntau gyfnod o waeledd yn 2008 ond trodd i wella ac ymgymerodd gorau y gallai i ofalu am ei braidd ac i bregethu yn ei ffordd nodweddiadol ei hun, yn naturiol ac yn aml yn defnyddio ei stôr o wybodaeth farddonol a llenyddol, ac eto yn efengylaidd, cymhellgar a'r cyfan yn codi o'i argyhoeddiad cadarn o wirionedd yr Efengyl a chyflawnder ei bendith, o fewn cylch y saith eglwys a fu dan ei ofal hyd yn gynnar eleni.

Diolchwn am gyfeillgarwch a chymwynasau Gwyn – cymwynasau, yn aml, na ŵyr neb amdanynt ond y sawl a'u derbyniont. Bu ei gwmniaeth ddiddan a melys ar wahanol deithiau i bwyllgorau neu achlysuron arbennig yn foddion gras i minnau yn ystod cyfnod ei weinidogaeth. Mae o bersonoliaeth hawddgar, yn llawen a chwrtais ac yn ŵr doeth ei gyngor a diogel ei arweiniad. Diolch am gael mwynhau bugeiliaeth ofalus a bendigedig.

# 'COFIO TEGLA': PERERINDOD Y GYMDEITHAS HANES

gan Lionel Madden

Cynhaliwyd ein pererindod eleni yng nghapel Shiloh, Tregarth ar 20 Mai. Amcan y dydd oedd cofio bywyd a gwaith y Parchedig Ddr Edward Tegla Davies a fu farw hanner canrif yn ôl yn 1967. Heb amheuaeth Tegla oedd un o gewri'r Methodistiaid Wesleaidd Cymraeg. Cafodd yrfa ddisglair fel un o arweinwyr yr enwad, fel awdur nifer sylweddol o lyfrau i blant ac oedolion, fel golygydd a chyfrannwr cyson i gylchgronau, fel darlithydd nodedig, fel meddyliwr dwfn am y ffydd Gristnogol, fel pregethwr enwog a gweinidog ffyddlon.

Dewiswyd Tregarth fel ein man cyfarfod i gofio Tegla oherwydd pwysigrwydd y pentref a'r capel iddo. Gwasanaethodd fel gweinidog Shiloh deirgwaith yn ystod ei weinidogaeth ac yn Nhregarth y cafodd ef a'i wraig eu claddu.

Roedd festri Shiloh yn llawn o hanner dydd ymlaen. Wedi cinio ysgafn aethom i fynwent Eglwys y Santes Fair, Tregarth, i weld y bedd. O ystyried maint cyfraniad a dylanwad Tegla, trawiadol oedd gweld y geiriau syml o dan ei enw: 'Gweinidog yr Efengyl'. Fe'n harweiniwyd mewn gweddi wrth y bedd gan y Parchedig Gwyndaf Richards, cyn inni ddychwelyd i gapel hardd Shiloh.

Yn y capel cawsom wasanaeth hyfryd gyda chynulleidfa dda. Wedi croeso cynnes gan y Parchedig Gwynfor Williams, gweinidog Shiloh, cafwyd cyfraniadau gan y Parchn. Gwilym O. Jones a Gwyndaf Richards, aelodau o'r Pwyllgor Hanes, a chan Lywydd y Gymdeithas Hanes. Yr organydd oedd Mr Robin Jones. Talwyd teyrnged i Tegla gan y Parchedig Ddr Huw John Hughes, Porthaethwy. O dan y teitl 'Tegla: Gŵr y Gobaith' ystyriodd bedair agwedd ar ei gymeriad a'i waith – sef ei ddiwydrwydd, y dylanwadau arno, ei ddychymyg a'i ddiwinyddiaeth. Cyn pob rhan o'i anerchiad dyfynnodd un o gadwyn o englynion i Tegla gan un arall o gewri'r enwad sef y Parchedig Gwilym R. Tilsley *[cyhoeddir y gadwyn gyfan ar y dudalen nesaf, gyda diolch i berchennog yr hawlfraint, Gareth Tilsley]*.

Daeth yn amlwg yn yr anerchiad nad oedd neb gwell na Huw John Hughes i arwain ein meddyliau. Mae yntau fel Tegla yn weinidog, yn awdur llyfrau i blant ac oedolion, yn siaradwr cyhoeddus gwych ac yn ddyn llawn egni a gweledigaeth. Cawsom anerchiad arbennig ganddo ac rydym yn ddiolchgar iawn iddo am fod yn fodlon dod atom.

Yn yr anerchiad cawsom ein hatgoffa am lyfrau Tegla ac yn arbennig ei gyfraniad i lenyddiaeth plant trwy *Hunangofiant Tomi, Nedw, Y Doctor Bach, Rhys Llwyd y Lleuad* ac eraill. Soniodd y siaradwr am y modd y parhaodd Tegla yn ifanc ei feddwl trwy'i fywyd, a'i allu i gydymdeimlo â phlant yn eu profiadau a'u teimladau. Pwysleisiodd hefyd mor galed y gweithiai Tegla fel awdur a golygydd. Ar yr un pryd, wrth gwrs, roedd yn hynod o brysur fel gweinidog a bugail, pregethwr a siaradwr poblogaidd iawn. Hefyd, fel pob gweinidog Wesle ar y pryd, roedd rhaid iddo symud tŷ yn gyson.

Cawsom dri phleser ychwanegol yn ystod y prynhawn. Y cyntaf oedd cael y cyfle i ganu'r unig emyn a ysgrifennwyd gan Tegla. Yr ail oedd edrych ar arddangosfa fach ddiddorol o luniau, llyfrau a dogfennau, rhai ohonynt yn ddogfennau gwreiddiol yn llawysgrifen Tegla. Ac yn drydydd, mwynhau cymdeithasu dros bryd o fwyd hyfryd yn y Vaynol Arms, Pentir.

Hon oedd y bedwaredd bererindod a gynlluniwyd ac a drefnwyd gan Robin Jones, Bethel, sy'n aelod brwdfrydig o'r Pwyllgor Hanes. Mae pawb sydd wedi mynychu a mwynhau'r pererindodau hyn yn ddyledus iawn iddo am ei holl waith.






# "TEGLA" gan Gwilym R. Tilsley

O lawn galon y gwelaist – dylodi
Dy wlad, a thosturiaist;
Yna, mewn llên ac mewn llais,
Dy rin i dlawd a rennaist.

Gwae a rennaist i groeniach, – a chysur
Iachusol i afiach,
Her y Beibl i lwfr boblach,
Gair y Duw Byw i rai bach.

I blant bach ac i'r Achos – y rhoddaist
D'oreuddawn, gan aros
I rannu â'r werinos
Lond gwlad o fwynhad fin nos.

Nos dawel dawnsiai dewin – aflonydd
Ar flaen dy ysgrifbin,
Dôi'r Tylwyth Teg i gegin
Lwydwedd drwy dy ryfedd rin.

Rhin y proffwyd a'i nwydau – a dynnodd
D'enaid i ofidiau;
Ni ŵyr gŵr orchfygu'r gau
Ond â phenyd a phoenau.

Trwy boenau i'n trybini – y daethost,
A'th air doeth i'n sobri;
I'n beiau mân tân wyt ti,
A llais gan lid yn llosgi.

Llosgaist hyd ddyddiau llesgedd – i ddeifio
Ac i ddifa'n llygredd,
Herio ein holl anwiredd,
A dadlau dros hawliau hedd.


Dwyn hedd a chymod i'n hoes, – a dwyn barn
Ar ragfarn a drygfoes,
Troi hynt dyn, trwy nwyd d'einioes,
At Grist, a haeddiant ei Groes.

Trwy y Groes a'r trugarhau – y gwelaist
Galon y sylweddau;
Y Gair sy'n fwy na'n geiriau:
Heb ymffrost aethost i'w hau.

Hau y Gair mewn byd o'i go', – hau y Gair
I'n gwerin ddihidio,
Hau'n ffyddiog ar greigiau ro,
Hau ganwaith heb egino.


Egin a dardd; tardd er i ti – hau'r had
Yn y drain a'r drysi,
Bydd ffrwyth ir o'i dreindir hi,
Oes galed, er nas gweli.

Ni welaist ti argoelion – yn dy oes
Yn dâl am d'orchwylion;
O drin had ar y waun hon
Y daeth golud i'th galon.





# TUDALEN Y PLANT



Beth am ddefnyddio'r sgwariau isod i wneud llun colomen heddwch

Os bydd rhywun yn gwneud rhywbeth cas i ni, mi fyddwn ni weithiau'n teimlo fel gwneud rhywbeth cas yn ôl. Ond dydi dau beth drwg ddim yn gwneud un peth da!

Felly beth ddylen ni ei wneud? Dywedodd Iesu Grist wrthym ni am greu heddwch, trio gwneud pethau'n well ac nid yn waeth. Dyna fydd yn ein gwneud yn hapus, er ei fod yn beth anodd i'w wneud weithiau. Wedyn byddwn yn debyg i Iesu ac yn blant i Dduw.

Dyma ddywedodd Iesu Grist: **Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.** (Mathew 5:9)



**GWEDDI – Arglwydd Iesu, rwyt ti'n fy ngharu bob amser.**
**Helpa fi i fod yn heddychlon a gwneud y byd yn well lle i bawb.**

